**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 8 Mawrth 2017**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Meirick Davies. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Huw Williams gysylltiad personol yn eitem 11 ar y rhaglen gan ei fod wedi cael trafodion busnes yn y gorffennol gyda'r Ymgeisydd. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2016 a 20 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir.* |
| **5** | HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) Cynnal Pwyllgor Trwyddedu Arbennig i wrando ar sylwadau oddi wrth y gyrwyr presennol hynny nad oedd wedi mynychu'r hyfforddiant;*<br><br>*(b) Mewn perthynas â gyrwyr a oedd newydd gael trwydded nad oedd eto wedi cael cyfle i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth, rhoi cyfarwyddyd i swyddogion drefnu digwyddiad hyfforddiant ymwybyddiaeth pellach (efallai y gellir darparu hwn yn fewnol) a*<br><br>*(c) Mewn perthynas ag ymgeiswyr newydd, rhoi cyfarwyddyd i swyddogion weithredu asesiad math "prawf gwybodaeth" ar ôl rhoi'r nodyn cyfarwyddyd i ymgeiswyr/gyrwyr newydd y gellir ei gynnwys yn y Prawf Gwybodaeth cyn cael trwydded* |
| **6** | DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU ARFAETHEDIG | ***PENDERFYNWYD*** *fod Datganiad y Polisi Trwyddedu yn cael ei fabwysiadu i'w weithredu o 1 Ebrill 2017.* |
| **7** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL 2017 Y PWYLLGOR TRWYDDEDU | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylwyd yn yr atodiad i'r adroddiad**.*** |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 8 Mawrth 2017**

<table>
<tr><th>Agenda Item No</th><th>Topic</th><th>Decision</th></tr>
<tr><td>8</td><td>ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 510104</td><td>PENDERFYNWYD gwrthod cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Yrrwr Rhif 510104.</td></tr>
<tr><td>9</td><td>ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 16/0944/TXJDR</td><td>PENDERFYNWYD rhoi rhybudd ffurfiol i Yrrwr Rhif 16/0944/TXJDR ynglŷn â’i ymddygiad yn y dyfodol.</td></tr>
<tr><td>10</td><td>CAIS AM GANIATÂD MASNACHU AR Y STRYD – YMGEISYDD RHIF 1</td><td>PENDERFYNWYD –<br><br>(a) Caniatáu’r cais am Ganiatâd Masnachu ar y Stryd ar gyfer tir preifat, wedi’i leoli o flaen yr Eglwys, Stryd Sussex,Y Rhyl, fel y manylwyd yn yr adroddiad, yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn yr adroddiad, yn benodol paragraffau 4.3 a 7.3;<br><br>(b) I swyddogion awdurdodedig gynnal arolygiad ar ddiwrnod cyntaf masnachu er mwyn sicrhau y cydymffurfiwyd â'r amodau a osodwyd, a<br><br>(c) Gofyn i’r Ymgeisydd ddarparu mwy o fanylion ar yr ardaloedd masnachu arfaethedig ar y Stryd Fawr, Stryd y Farchnad, Sgwâr Neuadd y Dref a Stryd Sussex fel y cyfeiriwyd atynt yn ei gais i gynnwys safleoedd penodol i’w hystyried ymhellach gan y pwyllgor.</td></tr>
<tr><td>11</td><td>CAIS AM GANIATÂD MASNACHU AR Y STRYD – YMGEISYDD RHIF 2</td><td>PENDERFYNWYD –<br><br>(a) Yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn benodol paragraffau 4.3 a 7.3, bod y cais am Ganiatâd Masnachu ar y Stryd yn cael ei ganiatáu fel a ganlyn -<br><br><table><tr><td>Ardal Fasnachu</td><td>Tu allan i 10 a 11 Stryd y Farchnad, Y Rhyl</td></tr></table></td></tr>
</table>

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | <table><tr><td>*Dyddiau/ Amseroedd Masnachu*</td><td>*Dydd Llun, Mercher a Sadwrn 08.00 y bore tan 16.00 y prynhawn*</td></tr></table> *(b)* *Bod swyddogion awdurdodedig yn cynnal arolygiad ar ddiwrnod cyntaf masnachu er mwyn sicrhau y cydymffurfiwyd â'r amodau a osodwyd.* |